

Freelancers supporting freelancers

CULTURAL FREELANCERS WALES

LLAWRYDDION CELFYDDYDOL CYMRU

Llawryddion yn cefnogi llawryddion



LICC/CFW

Aelodau Tîm

Pecyn Recriwtio

Ar gyfer fersiynau Saesneg, BSL, neu sain ewch i

www.cfw.wales/index.php/recruitment

www.licc.cymru

@CFWCymru

Pwy ydym ni?

Mae **Llawryddion Celfyddydol Cymru / Cultural Freelancers Wales** yn gydweithfa amrywiol a dwyieithog sydd yn cryfhau llais llawryddion sydd yn gweithio yn y celfyddydau yng Nghymru.

Rydym oll yn weithwyr llawrydd ac mae'r gydweithfa yn cael ei harwain a'i rhedeg gan weithwyr llawrydd. Ein aelodau tîm ar hyn o bryd yw [Angharad Davies](#) (nhw/eu), [Becky Johnson](#) (hi/nhw), a [Krystal Lowe](#) (hi/ei). Am fwy o wybodaeth amdany'n nhw a'u gwaith cliciwch ar yr enwau.

Pam ydym mewn bod?

Sefydlwyd y gydweithfa er mwyn ymateb i bandemig Covid-19, sydd yn effeithio'n anghymesur ar weithwyr llawrydd, hanner y gweithlu celfyddydol yng Nghymru.

Dangosodd ein hadroddiad, *Ar Lwybr Adferiad?*, y sefyllfa dal yn llwm iawn i lawer o weithwyr llawrydd yng Nghymru, gyda hanner ohonynt yn colli dros 80% o'u gwaith yn ystod 2021.

Wrth ddechrau ein gwaith yn 2020, roeddem yn defnyddio'r enw Tasglu Llawrydd Cymru / Wales Freelance Taskforce, ac rydym wedi parhau ein gwaith o 2021 hyd heddiw fel **Llawryddion Celfyddydol Cymru / Cultural Freelancers Wales**, gyda chyfraniadau oddi wrth sefydliadau celfyddydol a chymorthdal gan **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Mae'r prosiect wedi ei ariannu yn lawn hyd at Hydref 2023.

Beth ydym yn ei wneud?

Rydym yn gwrandao ac ymateb i anghenion a phryderon gweithwyr llawrydd yng Nghymru, gan sicrhau cysylltiad cryf drwy sgysiau, grwpiau ffocws, a digwyddiadau rhyngweithio. Rydym yn rhedeg ystod eang o brosiectau, darparu gwybodaeth, ymgyrchu, a gwneud gwaith polisi a casglu data.

Rydym yn rhagweld newid yn ein gwaith o ymateb yn uniongyrchol i effaith Covid-19 ar weithwyr llawrydd tuag at cydweithio efo llawryddion a sefydliadau er

mwyn targedu problemau systemig sydd yn gwynebu llawryddion a helpu i greu amodau gweithio tegach.



CEFNOGAETH



YMGYRCHU



PROSIECTAU



ADNODDAU

Hyd yma, rydym wedi:

- Cyfarfod â dros 250 o weithwyr llawrydd mewn grwpiau ffocws: **gwrando ac ymateb** i anghenion a phryderon gweithwyr llawrydd a sicrhau bod hyn yn llywio ein gwaith.
- **Creu gofod** i weithwyr llawrydd siarad â'i gilydd a llunio syniadau newydd mewn cyfres o weithdai *Ein Dyfodol Llawrydd* ar-lein.
- Lansio menter ledled Cymru i **fapio lleoliadau a sgiliau** dros 350 o weithwyr llawrydd celfyddydol, mewn cydweithrediad ag [Atlas Economi Greadigol Clwstwr](#).
- Cynnig 10 Lleoliad **Datblygiad Proffesiynol** mewn cydweithrediad â Arts & Business Cymru.
- Comisiynu astudiaeth newydd yn 2021, [Ar Lwybr Adferiad?](#), sydd yn **cyflwyno data ar sefyllfa bresennol llawryddion**. Mi wnaeth ein astudiaeth o 2021 study, [Ailfantoli ac Ailddychmygu](#), ddylanwadu Cynllun Strategol National Theatre Wales a cafodd yr adroddiad ei drafod ar lefel bwrdd mewn sawl sefydliad, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru.
- Hwyluso cyfres o **Weithdai Uwchsgilio** am ddim i weithwyr llawrydd, a **Sesiynau Llesiant** ar gyfer llawryddion gyda Mind Newport.
- Cynghori **Llywodraeth Cymru** ar y sector llawrydd yng Nghymru a'r Adduniad Llawrydd a Sector Gyhoeddus.

- Datblygu **partneriaethau strategol** gyda sefydliadau ledled y sector yng Nghymru a'r DU.

Sut ydym yn gwneud hyn?

Rydym yn gweithredu mewn strwythur heb hierarchiaeth lle mae cyfrifoldeb ar y cyd a hunan-adlewyrchu yn ran mawr o'r diwylliant. Rydym yn aml yn gweithio gyda phartneriaid i **gynhyrchu prosiectau er mwyn cael mewnwelediad a hwyluso llawryddion i gyflawni tasgau**. Rydym yn sicrhau bod **aelodau'r tîm yn teimlo bod cefnogaeth ganddynt i arwain** ar eu tasgau penodol ac eu bod yn teimlo yn **barod i gymryd penderfyniadau** efo'r tîm tra yn rhannu eu arbenigedd gyda eraill.

Rydym yn cydweithio yn agos efo'n partneriaid **Arts & Business Cymru, Disability Arts Cymru, people make it work**, a **Race Council Cymru**.

Beth ydym yn bwriadu ei wneud?

Rhwng Awst 2022 - Hydref 2023 byddwn yn parhau y gwaith hollbwysig yr ydym wedi ei ddechrau, a gweithredu ar y cynllun uchelgeisiol isod sydd yn adeiladu ar ein gwaith a'n cyrhaeddiant:

- Cynnal **Gweithdai Uwchsgilio** am ddim ar gyfer gweithwyr llawrydd (a werthwyd allan y llynedd).
- Darparu **Lleoliadau Datblygu Busnes** am ddim i lawryddion, gyda Arts & Business Cymru.
- Creu **Digwyddiadau Rhwydweithio** rheolaidd ledled Cymru, adeiladu ar ein rhwydweithiau cyfredol a chryfhau rhannu cymunedol ac adnoddau.
- **Dyfodoliaeth Llawrydd**: cyfres o gomisiynau i weithwyr llawrydd (galwad agored) i greu prosiectau trawsnewidiol ar lawr gwlad sy'n targedu heriau yn

eu hardal neu eu maes.

- Datblygu **Mapio Llawrydd** [Atlas Economi Greadigol Clwstwr](#) a chynyddu nifer y gweithwyr llawrydd a fapiwyd.
- Creu arolwg a chyhoeddi **Adroddiad 2023** ar llawryddion yn y sector gelfyddydol. Mi fydd hyn yn adeiladu ar ein adroddiadau o 2020 a 2022 i greu darlun hir-dymor, gyda data, o effaith y pandemig ar weithwyr llawrydd sydd yn gweithio yn y celfyddydau yng Nghymru.
- Parhau â'n **gwaith ymgynghorol gyda chyrrff diwydiannol a'r llywodraeth**, gan sicrhau bod y llais llawrydd yn cael ei glywed yn glir ac yn dadlau'r achos dros gefnogi llawryddion.

Mae'r rhaglen hon yn seiliedig ar farn gweithwyr llawrydd eu hunain (grwpiau ffocws llawrydd a'n harolygon yn ystod 2021). Rydym yn rhagweld ein gwaith o ymateb yn uniongyrchol i effaith Covid-19 ar weithwyr llawrydd i gydweithio efo llawryddion a sefydliadau er mwyn targedu problemau systemig sydd yn gwynebu llawryddion.

Disgrifiadau Swydd

Mae **Llawryddion Celfyddydol Cymru / Cultural Freelancers Wales** yn edrych am **ddau aelod tîm newydd - Cydlynnydd Creadigol a Hywlysudd** - i ymuno â ni ar raddfa llawrydd am 15 mis, o **Awst 2022 - Hydref 2023**. Mae'r swydd ddisgrifiadau manwl ar gyfer y ddau rôl isod.

Am bwy ydym yn edrych ar gyfer y ddwy swydd?

Rydym ni'n chwilio am bobl sydd yn **angerddol dros gefnogi llawryddion sydd yn gweithio yn y celfyddydau** a sydd yn **mwynhau gweithio fel rhan o dîm hyblyg**.

Rydym ni'n chwilio am bobl efo rai o'r nodweddion canlynol:

- Aelod tîm effeithiol
- Y gallu i feddwl yn strategol
- Sgiliau hwyluso a chydlynnu
- Y gallu i wneud defnydd da o'u hamser
- Etheb gwaith o'r radd flaenaf
- Agwedd empathig

Rydym ni'n gweithio i sicrhau bod ein tîm yn **cynrychioli ystod amrywiol o lawryddion**, ac oherwydd hynny rydym yn edrych yn bennaf ar glywed oddi wrth y canlynol:

- Pobl sy'n F/fyddar a/neu anabl
- Llawryddion o'r Mwyafrif Bydeang a/neu llawryddion Du, Asiaidd, Dwyrain Canol.
- Cymry Cymraeg sy'n rhugl yn yr iaith a/neu yn angerddol dros yr iaith (efallai eu bod yn dysgu)
- Gweithwyr llawrydd technegol
- Pobl sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd gwledig

Ar gyfer rôl y **Cydlynnydd Creadigol**, rydym yn edrych am **siaradwr Cymraeg hyderus**.

Hygyrchedd

Os oes angen unrhyw gefnogaeth arnoch chi i gyflwyno cais, plîs cysylltwch gyda ni ar hello@cfw.wales neu rhowch alwad i ni ar **07501 054 272 neu 07707 067 458**. Gan ein bod i gyd yn weithwyr llawrydd, os nad oes unrhyw un yn codi'r ffôn ar y pen arall efallai ein bod yn gweithio ar brosiect arall ar y foment honno, felly plîs gadewch neges neu neges destun a mi wnawn ni ddod yn ôl atoch cyn gynted â phosib.

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau mewn unrhyw fformat, am fwy o wybodaeth ewch i 'Proses Ymgeisio' ar ddiwedd y pecyn yma (ar dudalen 15).

Mae unrhyw un sydd yn gweithio gyda ni yn gallu derbyn cefnogaeth o'n cyllideb hygyrchedd.

Aelod Tîm: **Cydlynnydd Creadigol**

Gweithio gyda **Llawryddion Celfyddydol Cymru / Cultural Freelancers Wales**

Aelod Tîm

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm deinamig sy'n caru diwylliant i gefnogi gwaith y grŵp, cefnogi aelodau'r tîm wrth ddatrys problemau ar y cyd, a cynnig eich arbenigedd lle bo angen. Mae holl aelodau'r tîm yn mynychu cyfarfodydd wythnosol lle bo modd, ac mae gwerthuso'n cael ei gynnwys yn amserlen y prosiect. Mae gan bob aelod tîm gyfrifoldeb i gysylltu â phartner a/neu gyllidwr.

Dylunio dyfodol CFW/LICC

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu fesul grant, ond rydym yn ceisio symud ymlaen i ddod yn sefydliad elusennol cynaliadwy a gwireddedig. Ynghyd â chyd-aelodau'r tîm, byddwch yn sefydlu sut y bydd sefydliad o'r fath yn cael ei lywodraethu, pa fath o waith y bydd yn ei wneud, sut y bydd y tîm yn gweithio, ac unrhyw gwestiynau eraill sy'n codi. Mae hwn yn gyfle i feddwl yn greadigol a bwydo i mewn i gamau nesaf sefydliad arloesol. Dywedwch wrthym os oes gennych brofiad neu wybodaeth o wneud cais am statws elusennol neu strwythurau sefydliadol.

Marchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol

Ar hyn o bryd mae holl aelodau'r tîm yn cefnogi ein hymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gennych os oes gennych brofiad neu wybodaeth mewn marchnata digidol a phostio cyfryngau cymdeithasol.

Rheoli cyfathrebiadau

Fel y llinell gyfathrebu gyntaf gyda gweithwyr llawrydd a'r cyhoedd, chi sy'n gyfrifol am reoli perthnasoedd a'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu'n allanol. Byddwch yn gyfrifol am reoli cyfathrebu effeithlon rhwng CFW/LICC a'n partneriaid, monitro'r mewnlwch, calendr a chyfarfodydd rhithwir, yn ogystal â phostio'n ddwyieithog a rhyngweithio ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Mae hwn yn gyfle i feddwl yn greadigol am wahanol ddulliau ymgysylltu a modelau cyfathrebu ar gyfer CFW/LICC.

Trosolwg o brosiectau

Fel yr amlinellwyd yn 'Beth ydym yn bwriadu ei wneud?' ar dudalen 4, rydym yn cynhyrchu ystod eang o brosiectau, fydd weithiau yn digwydd ar yr un pryd. Byddwch yn gyfrifol am fonitro cynnydd a chadw amser, gan helpu prosiectau i addasu i newidiadau yn y llinell amser, newidiadau ariannol, ac ati. Mae hwn yn gyfle i gynnig eich arbenigedd a'ch syniadau i aelodau'r tîm yn y broses o ddod o hyd i atebion ac ymateb i heriau.

Gwerthuso

Byddwch yn gyfrifol am goladu a chyflwyno adroddiad gwerthuso CFW/LICC ar ganol a diwedd y prosiect, gan gyfathrebu â'n partner cynnal (**people make it work**) a'n cyllidwr allweddol (**Cyngor Celfyddydau Cymru**) am newidiadau a datblygiadau yn ein gwaith.

Cyllidol

Ein partner cynnal (**people make it work**) sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol y prosiect, a byddwch yn cefnogi eu hadran gyllid gydag unrhyw ymholiadau neu ofyniadau am anfonebau. Bydd gennych ddealltwriaeth dda o'n cyllideb ac yn helpu i gyfathrebu a monitro newidiadau i'r gyllideb, gyda chefnogaeth **people make it work**.

Ar gyfer y rôl yma, rydym yn edrych am rywun sydd yn **siarad Cymraeg yn hyderus.**

Rydyn ni hefyd yn chwilio am bobl a chanddynt rai o'r nodweddion canlynol:

- Aelod tîm effeithiol
- Y gallu i feddwl yn strategol
- Sgiliau trefnu da
- Y gallu i wneud defnydd da o'u hamser
- Etheb gwaith o'r radd flaenaf
- Agwedd empathig

Aelod Tîm: **Hwylusydd**

Gweithio gyda **Llawryddion Celfyddydol Cymru / Cultural Freelancers Wales**

Aelod Tîm

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm deinamig sy'n caru diwylliant i gefnogi gwaith y grŵp, cefnogi aelodau'r tîm wrth ddatrys problemau ar y cyd, a cynnig eich arbenigedd lle bo angen. Mae holl aelodau'r tîm yn mynychu cyfarfodydd wythnosol lle bo modd, ac mae gwerthuso'n cael ei gynnwys yn amserlen y prosiect. Mae gan bob aelod tîm gyfrifoldeb i gysylltu â phartner a/neu gyllidwr.

Dylunio dyfodol CFW/LICC

Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu fesul grant, ond rydym yn ceisio symud ymlaen i ddod yn sefydliad elusennol cynaliadwy a gwireddedig. Ynghyd â chyd-aelodau'r tîm, byddwch yn sefydlu sut y bydd sefydliad o'r fath yn cael ei lywodraethu, pa fath o waith y bydd yn ei wneud, sut y bydd y tîm yn gweithio, ac unrhyw gwestiynau eraill sy'n codi. Mae hwn yn gyfle i feddwl yn greadigol a bwydo i mewn i gamau nesaf sefydliad arloesol. Dywedwch wrthym os oes gennych brofiad neu wybodaeth o wneud cais am statws elusennol neu strwythurau sefydliadol.

Marchnata digidol a chyfryngau cymdeithasol

Ar hyn o bryd mae holl aelodau'r tîm yn cefnogi ein hymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol a marchnata digidol. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed gennych os oes gennych brofiad neu wybodaeth mewn marchnata digidol a phostio cyfryngau cymdeithasol.

Cyfrifoldebau: Hwylusydd

Cydlynu Arolwg ac Adroddiad 2023

Byddwch yn gyfrifol am ddylunio galwad agored ar gyfer ymchwilydd neu dîm ymchwil i gynnal arolwg ac adroddiad yn edrych ar amodau gwaith ar gyfer gweithwyr llawrydd yn 2023, helpu i lunio cwestiynau arolwg, dosbarthu a hyrwyddo'r arolwg, cysylltu â'r ymchwilwyr yn rheolaidd, trefnu mynediad a cyfieithu arolwg ac adroddiad, creu a gweithredu cynllun marchnata o'r arolwg a'r adroddiad, a'i ddosbarthu i randdeiliaid. Dywedwch wrthym os oes gennych brofiad neu wybodaeth am arferion ymchwil, gan ddefnyddio data i gyflwyno achos, a/neu ysgrifennu academaidd.

Comisiynau Dyfodoliaeth Llawrydd

Gan weithio ar y cyd ag aelod arall o'r tîm, byddwch yn dylunio galwad agored hygyrch ar gyfer cyfres o gomisiynau gan weithwyr llawrydd i greu prosiectau trawsnewidiol, lawr gwlad sy'n targedu heriau o fewn eu hardal neu faes. Byddwch yn cysylltu â phartneriaid sefydliadau diwylliannol ledled Cymru i gefnogi datblygiad a chyllid sbarduno y comisiynau amrywiol ac eang. Dywedwch wrthym os oes gennych brofiad neu wybodaeth o gynhyrchu neu o ddatblygiad artistig/technegol.

Digwyddiadau Rhwydweithio

Gan weithio ar y cyd ag aelod arall o'r tîm, byddwch yn cynhyrchu cyfres o ddigwyddiadau rhwydweithio wyneb wrth wyneb a rhithwir ledled Cymru, gan adeiladu ar ein rhwydweithiau presennol a chryfhau cymunedau a rhannu adnoddau ar gyfer gweithwyr llawrydd diwylliannol.

Rydyn ni'n chwilio am bobl a chanddynt rai o'r nodweddion canlynol:

- Aelod tîm effeithiol
- Y gallu i feddwl yn strategol
- Sgiliau hwyluso a chydlynnu
- Rhywun sydd n angerddol dros yr iaith (efallai eu bod yn dysgu)
- Y gallu i wneud defnydd da o'u hamser
- Etheb gwaith o'r radd flaenaf
- Agwedd empathig

Ffioedd

Caiff holl Aelodau Tîm LICC eu talu ar gyflwyno anfoneb

£200 y dydd (8 awr)

£25 yr awr

Gofynion Amser

Mae'r hyblygrwydd yn y rôl yma yn golygu bod o'n bosib i chi weithio o gwmpas gwaith llawrydd arall. Mae pob aelod tîm presennol yn gweithio yn lawrydd yn y sector gelfyddydol tra yn gwneud eu dyletswyddau **LICC/CFW**.

Bydd gofyn i'r **Cydlynnydd Creadigol** weithio 4 diwrnod y mis, sy'n cynnwys bod yn bresenol yn ein cyfarfod tîm wythnosol (2 awr yr wythnos). Gellir trafod a chytuno ar y cyd pryd y byddwch yn gweithio'r dyddiau hyn a sut i strwythuro'r oriau gwaith ar gyfer y rôl hon. Mae rhywfaint o hyblygrwydd yma, ond rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd cysondeb a pharhad gan fod y **Cydlynnydd Creadigol** yn helpu i reoli hyd y prosiect.

Bydd yr **Hwylusydd** yn mynychu ein cyfarfod tîm wythnosol (2 awr yr wythnos) ac yn gweithio cyfwerth ag 1 awr yr wythnos ar fusnes cyffredinol. Mae hyn yn **gyfanswm o 1.5 diwrnod y mis**. Yn ogystal â'r 1.5 diwrnod y mis hyn, bydd gofyn i'r **Hwylusydd** hefyd weithio:

- 10 diwrnod ar Gydgyssylltu Arolygon ac Adroddiadau

- 8 diwrnod ar Gomisiynau Dyfodoliaeth Llawrydd

- 4 diwrnod ar Ddigwyddiadau Rhwydweithio

will attend our weekly team meeting (2 hours per week) and work the equivalent of 1 hour per week on general business. This is a **total of 1.5 days per month**. As well as these 1.5 days per month, the **Hwylusydd** will also be required to work:

- 10 days on Survey and Report Co-ordinating

- 8 days on Freelance Futurism Commissions

- 4 days on Networking Events

Bydd pryd y byddwch yn gweithio y dyddiau hyn yn dibynnu ar raddfa ac amserlen y prosiectau, ac mae rhywfaint o hyblygrwydd yma.

Mae'n debygol y bydd angen rhai oriau ychwanegol hefyd, ond caiff y rhain eu dyrannu trwy gytundeb rhwng aelodau'r tîm, a'u trafod yn ystod cyfarfodydd wythnosol o'r tîm.

Dyddiadau a Lleoliad

Dyddiad dechrau: 8 Awst 2022, neu mor agos i'r dyddiad yma â phosib.

Dyddiad gorffen: 31 Hydref 2023.

Amcangyfrif o 15 mis, yn ddibynnu ar y dyddiad dechrau.

Lleoliad: Yn rhithwir ar hyn o bryd (cyfarfodydd dros Zoom), rydym yn bwriadu gwneud mwy o waith wyneb wrth wyneb, ond mae hyblygrwydd ynglŷn â hyn.

Proses Ymgeisio

Gofynnir i chi anfon **llythyr esboniadol byr** (dim mwy na 500 gair) neu **recordiad llais/fideo** (dim mwy na 5 munud) yn manylu ar sut rydych chi'n cwrdd â gofynion y brîff/iau a ddisgrifir uchod, at hello@cfw.wales (nodwch 'Cais Aelod Tîm' yn y llinell pwnc). Mae croeso i chi hefyd atodi CV o unrhyw fath.

Mae'n bosib ymgeisio am fwy nag un swydd.

Dyddiad Cau: 10yb, Llun 18 Gorffennaf 2022

Byddwn yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd beth yw statws eu cais erbyn **21 Gorffennaf 2022**.

Dyddiad Cyfweiliad: Llun 25 Gorffennaf 2022 (10yb-1yp)

Caiff pob cyfweiliad ei gynnal ar Zoom. Bydd y panel yn cynnwys aelodau tîm LICC/CFW [Angharad Davies](#) (nhw/eu), [Becky Johnson](#) (hi/nhw), a [Krystal Lowe](#) (hi/ei), a chydweithwr o'n sefydliad partner, **people make it work**, [Lesley Rossiter](#) (hi/ei).

Bydd y cwestiynau i'w gofyn yn y cyfweiliad yn cael eu hanfon at yr ymgeiswyr dau ddiwrnod cyn y dyddiad cyfweld; nid ydym, fodd bynnag, yn disgwyl i'r rhai sy'n cael eu cyfweld baratoi unrhyw beth o flaen llaw. Ni fydd y cyfweiliadau'n para mwy na 30 munud. Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, byddwn yn gofyn i chi o flaen llaw am adael i ni wybod os oes gennych unrhyw ofynion ynghylch mynediad.

Byddwn yn rhoi gwybod i bawb a gyfwelwyd beth yw canlyniad y cyfweiliad erbyn **Gwener 29 Gorffennaf 2022**.

Os oes angen unrhyw gefnogaeth arnoch chi i gyflwyno cais, plis cysylltwch gyda ni ar hello@cfw.wales neu rhowch alwad i ni ar **07501 054 272 neu 07707 067 458**. Gan ein bod i gyd yn weithwyr llawrydd, os nad oes unrhyw un yn codi'r ffôn ar y pen arall efallai ein bod yn gweithio ar brosiect arall ar y foment honno, felly plis gadewch neges neu neges destun a mi wnawn ni ddod yn ôl atoch cyn gynted â phosib.

Os hoffech sgwrs am unrhyw un o'r rolau yma neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, plis ebostiwch hello@cfw.wales a byddwn yn hapus i sgwrsio.

Rydym yn edrych ymlaen i glywed ganddoch chi!